

- STRATEGAETH TWRISTIAETH NEWYDD
- GEOPARCIAU YR IWERYDD



- RHEOLI YMWELWYR
- BRO'R SGYDAU
- YMWELWYR A'U CŴN



- MYNYDDOEDD DU
- CYNLLUN LLYSGENHADON
- POBL DDIEMWNT
- MYTHS AND LEGENDS
- PROSIECT ANIMEIDDIO
- CINIO GALA BBT



# Canolfan Beicio newydd gwych i Dalymbont-ar-Wysg

**A**gorwyd y ganolfan beicio newydd gan ddau wyneb enwog sef y beiciwr Becky James, enillydd Pencampwriaeth y Byd ddwywaith ac enillydd medal arian Olympaidd a'r chwaraewr tennis bwrdd Rob Davies, enillydd medal aur Paralympaidd. Mae'r ganolfan wedi'i lleoli ger Neuadd Henderson yn Nhalybont-ar-Wysg; mae yno faes chwarae cymunedol newydd, gwell cyfleusterau i ymwelwyr a golchfa ecogyfeillgar i feiciau. Mae'r prosiect dan arweiniad y Cyngor Cymuned wedi elwa ar £250,000 o'r Loteri Fawr a chyfranogiad y gymuned gyfan. Roedd y prosiect yn cynnwys creu llwybr hygyrch o amgylch y cae chwarae i blant reidio eu beiciau, maes chwarae gwych newydd i deuluoedd a gwelliannau mawr i'r gegin a'r toiledau o fewn y neuadd sydd ar gael i'w llogi.



Mae cynnwys yr olchfa beiciau ynghyd â charwodydd a thoiledau pwrpasol yn golygu bod y cyfleuster yn ganolfan feiciau allweddol o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r beicwyr niferus sy'n ymweld â Thalybont i fanteisio ar y llwybrau beicio mynydd sy'n ymestyn i bob cyfeiriad o'r pentref.

Ynghyd â'r llwybrau beicio mynydd niferus a'r llwybr Beicio ar draws y Bannau ar y ffordd fawr, mae Talybont yn profi i fod yn ddewis poblogaidd i ymwelwyr sy'n awyddus i fwynhau gwyliau ar ddwy olwyn.

"Beicio Mynydd ym Mannau Brycheiniog" Mae'r pecyn hwn yn cynnwys 12 llwybr ac yn costio £8.50. Mae modd i fusnesau brynu pecyn am £5.00.

**I brynu'r pecyn, cysylltwch â Bev Powell yng Nghanolfan Ymwelwyr Libanus**

[Beverley.powell@beacons-npa.gov.uk](mailto:Beverley.powell@beacons-npa.gov.uk)  
01874 623483.

# STRATEGAETH TWRISTIAETH NEWYDD

O'r diwedd, rydym wedi cwblhau'r gwaith! Ar ôl 12 mis o waith caled ac ymgynghori, mae Peter Cole a'i gymdeithion wedi llunio'r strategaeth newydd ar gyfer gwaith y bartneriaeth ar ddatblygu a marchnata twristiaeth. Gwnaethpwyd hyn drwy Fforwm y Bartneriaeth, Grwpiau Cyflenwi a Marchnata a'r Bwrdd ac mae'r strategaeth yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg ar hyn o bryd. Fe fydd ar gael yn fuan ar [www.beacons-npa.gov.uk](http://www.beacons-npa.gov.uk). Mae prif gamau gweithredu'r strategaeth yn canolbwyntio ar:

## MARCHNATA

→ Sicrhau bod partneriaid yn hollol ymwybodol o'r sianelau marchnata amrywiol sydd ar gael i ni. Bydd eu hannog i hyrwyddo'r brand yn arbennig o bwysig.

## PROFIADAU O ANSAWDD UCHEL

→ Parhau i chwilio am ffyrdd newydd o roi profiadau rhagorol i ymwelwyr sy'n cyd-fynd â'r 'Flwyddyn o Brofiadau' heb effeithio'n fawr ar y dirwedd.

## 'PECYNNU MEDDAL'

→ Chwilio am ffyrdd i ymestyn y tymor ac annog newidiadau fel cael mwy o ymwelwyr i aros dros nos yn hytrach na chael ymweliadau dydd yn unig.

## HYFFORDDIANT

→ Parhau gyda datblygu'r diwrnod hyfforddi gan gynnwys ymestyn y cynllun Llysgenhadon ymhellach.

## RHEOLI YMWELWYR

→ Sicrhau bod ymwelwyr yn cael y negeseuon cywir o ran ble i fynd a beth i'w wneud.

## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

→ Rydym wedi cytuno ar strwythurau newydd ar gyfer cydweithio a rheoli'r gyrchfan yn ei chyfanrwydd.

*Ariannwyd y strategaeth gan Croeso Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Twristiaeth Bannau Brycheiniog a Chyngor Sir Powys.*



## GEOPARCIAU YR IWERYDD

Dyma Brosiect Interreg arall – er yn llawer llai o faint y tro hwn. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cydweithio gyda'r 12 Geoparc arall yn Ardal yr Iwerydd (ar hyd arfordir gorllewinol Ewrop) i ddatblygu dull marchnata cydgysylltiedig. Fe fydd fideo ac offer TGCh newydd ynghyd â phroffil uwch o lawer i Geoparc Byd-eang UNESCO Fforest Fawr yn lleol ac ar draws Ewrop. Drwy hyn, rydym wedi gallu penodi Clarissa Price (fe fydd rhai ohonoch yn ei hadnabod o'i gwaith fel rhan o'n Tîm Cyfathrebu) i weithredu fel Swyddog Marchnata, ac wrth gwrs, fe fydd hi'n cydweithio'n agos ag Alan Bowring. Bydd y prosiect yn parhau am ddwy flynedd o fis Tachwedd a bydd yn hollol integredig gyda gwaith marchnata cyffredinol Bannau Brycheiniog.

*Ariennir y prosiect gan Interreg VB yr UE – Ardal yr Iwerydd ynghyd â rhaglen Cyllid Cyfatebol a Dargedir Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi gwarantu y bydd cyllid ar gael yn dilyn Brexit.*

## DAEAREG, OGOFEG, ARCHAEOLEG, ADAREG ...!

Yn ddiweddar, daeth dros 100 o ddaeargwyr amatur o bob cwr o Brydain i Gaerdydd i fynychu cynhadledd flynyddol Cymdeithas y Daearegwyr. Ni effeithiodd Storm Brian arnynt ar y Dydd Sadwrn gan eu bod yn cynnal sesiynau dan do yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Ar y Dydd Sul, mentrodd y criw allan i arfordiroedd gwyntog Gŵyr a bryniau Geoparc Fforest Fawr i archwilio dwy dirwedd greigiog gyferbyniol a rhyfeddol. Fel sawl darpar lysgennad i'r Geoparc o'u blaenau, cawsant y cyfle i archwilio hen bentrefan diwydiannol Penwyllt a'r holl ddiffieithwch naturiol yno gan ddysgu mwy am ben uchaf Cwm Tawe.

Dyma dirwedd hynod a'i daeareg yn amlwg i bawb, o'r hyn sydd dan draed a hefyd y golygfeydd ysblennydd drosodd i Gribarth a Fan Hir. Mae ogofeg yr ardal yn fwy cudd ond mae ogof ddyfnaf Prydain yma, sef Ogof Ffynnon Ddu. Mae archaeoleg yr ardal (o natur ddiwydiannol) yr un mor ddiddorol â Saffle Treftadaeth y Byd Blaenafon. Roedd adareg yr ardal yn amlwg ar y dydd ar ffurf arddangosfa arobaratig gan hebogiaid.

Busnesau twristiaeth: gallwch chithau hefyd gymryd rhan drwy wirfoddoli i fod yn Llysgennad Geoparc – mae 80 ohonoch eisoes yn dyst i werth gwneud hyn. Ymhellach, cynhelir ail ddiwrnod o hyfforddiant ym Mhontneddfechan. Dyma dirwedd ysblennydd a chyfoethog arall yn nhermau ei daeareg, archaeoleg ddiwydiannol ac yn y blaen. Mae yno hefyd 'eg' arall, sef bryoleg – y mwsoglau a llys afu o bwys rhyngwladol sydd i'w gweld yng ngheunentydd coediog yr ardal.

→ Cofrestrwch ar gyfer Hyfforddiant Llysgenhadon a'r cyfle i ddysgu mwy am gyfoeth yr ardal! Cysylltwch ag Alan Bowring ar 01874 620415 neu e-bostiwch [alan.bowring@beacons-npa.gov.uk](mailto:alan.bowring@beacons-npa.gov.uk)





## YMWELWYR A'U CŴN

Mae ffermwyr yn dweud wrthym bod rhai cŵn a ddaw gydag ymwelwyr yn achosi problemau difrifol – yn poeni stoc ac yn lledaenu afiechydon drwy eu baw. Ar y llaw arall, mae tua chwarter o'n hymwelwyr yn dod â chŵn ac yn dweud wrthym bod hyn yn rhan bwysig iawn o'u hymweliad. Fel rhan o'r Cynllun Rheoli Ymwelwyr, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn edrych i weld sut y gallwn reoli'r broblem hon ac yn enwedig beth (a sut) y byddwn yn gofyn i ymwelwyr ei wneud i leihau'r effeithiau negyddol. Rydym yn ffodus o gael myfyriwr PhD o Adran Seicoleg Prifysgol Caerdydd a fydd yn ein cynghori ynghylch sut i ddelio gyda'r broblem hon.

➔ Os oes gennych ddiddordeb penodol yn y mater hwn, cofiwch gysylltu gyda Richard Tyler.

[Richard.Tyler@beacons-npa.gov.uk](mailto:Richard.Tyler@beacons-npa.gov.uk)

01874 620405

## RHEOLI YMWELWYR

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar fin dechrau prosiect newydd cyffrous sy'n helpu i drefnu'r modd yr ydym yn rheoli ymwelwyr yn y Parc Cenedlaethol. Wrth gwrs, mae ymwelwyr yn gallu cael effeithiau negyddol yn ogystal â rhai cadarnhaol ac mae angen i ni ymgysylltu gyda phartneriaid er mwyn ceisio datrys y rhai mwy negyddol.

Bydd y prosiect yn cyflogi Swyddog Prosiect am 2 flynedd ac yn canolbwyntio ar dri maes penodol:

➔ **RHEOLI SAFLE** – yn enwedig y Rhadaerau

➔ **NEWID YMDDYGIAD** – yn enwedig ymwelwyr a'u cŵn

➔ **CYNLLUNIO AR GYFER RHEOLI YMWELWYR** – gweithio gyda busnesau, perchnogion tir/ffermwyr ac eraill i gynllunio sut ydym yn rheoli ymwelwyr dros ardal eang. Mae'n ymddangos mai'r Mynyddoedd Du yw'r lle mwyaf amlwg i ddechrau.

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth Cymru.*

## BRO'R SGYDAU

Efallai bod rhai ohonoch wedi clywed am yr anawsterau mawr y mae ymwelwyr wedi cael wrth geisio parcio eu ceir ym Mro'r Sgydau yn ddiweddar. Mae niferoedd wedi cynyddu'n aruthrol ac nid yw'r seilwaith yn gallu ymdopi gyda hynny. Mae hyn wedi cael effaith fawr ar drigolion lleol hefyd ac mae lleiafrif o ymwelwyr wedi achosi problemau drwy barcio'n anghyfrifol.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi sefydlu partneriaeth gyda thri awdurdod lleol arall, y Cyngor Cymuned a Cyfoeth Naturiol Cymru a gyda'n gilydd, rydym wedi cyflogi cwmni i edrych ar barcio ceir ar draws Bro'r Sgydau yn ei chyfanrwydd. Dechreuodd y gwaith yn Awst a byddant yn adrodd yn ôl i ni yn Ebrill. Mae'n amlwg yn barod nad oes unrhyw atebion byrdymor i'r broblem hon fodd bynnag, a byddem yn eich cynghori i ddweud wrth bobl am beidio ag ymweld yn ystod y penwythnosau brig, yn enwedig Gwyliau'r Banc. Does dim yn fwy rhwystredig na mynd i rywle cyffrous a methu parcio'n rhwydd yno.

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth Cymru.*

**CADWCH Y  
DYDDIAD ...**

**Cynhadledd  
Cyrchfan  
Twristiaeth  
Bannau  
Brycheiniog 2018**

**Dydd Mercher,  
7 Chwefror 2018  
yng Nghanolfan  
Gymunedol  
Llangynidr.  
10 yb - 1 yp.**



# **DYDDIADAU I'CH DYDDIADUR 2018**

**Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

## **CYNLLUN LLYSGENHADON**

**a gynhelir gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.**

Dewch i ymuno â thros 270 o bobl sy'n rhedeg busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a hyfforddi i ddod yn Llysgennad Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bydd angen i chi fynychu pob un o'r tridiau, a'r gost yw £30 yn ogystal â thâl gweinyddol bach. Gallwch gofrestru drwy Eventbrite - [www.eventbrite.co.uk/e/brecon-beacons-national-park-ambassador-tickets-39112844571](http://www.eventbrite.co.uk/e/brecon-beacons-national-park-ambassador-tickets-39112844571)

➔ Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Carol Williams:  
[carol.williams@beacons-npa.gov.uk](mailto:carol.williams@beacons-npa.gov.uk)  
**01874 620478**

**8 Chwefror**

## **YMDEIMLAD O LE**

**10 yb - 4 yp yng Nghanolfan Ymwelwyr y  
Parc Cenedlaethol, Libanus.**

Mae'r dydd yn archwilio'r cysyniad o ymdeimlad o le ac yn trafod beth sy'n gwneud Bannau Brycheiniog yn arbennig. Mae'r dydd yn rhoi'r wybodaeth a'r

hyder i chi i gynorthwyo eich gwesteion i gael y profiadau gorau posibl yn y Parc. Er enghraifft, oeddech chi'n gwybod bod Adelina Patti yn gantores opera enwog ac mai hi oedd y model gyntaf ar gyfer Sebon Pears? Prynodd Adelina Gastell Craig-y-nos yn 1878 ac adeiladodd theatr bersonol yn y castell. Mae'r theatr ryfeddol hon i'w gweld yno heddiw.

**Tiwtor: Tracey Churcher**

**28 Chwefror**

## **PARC YN EICH CALON**

**10 yb - 4 yp yng Nghanolfan Ymwelwyr y  
Parc Cenedlaethol, Libanus.**

Bwriad y dydd yw eich cynorthwyo i uniaethu gyda'r dirwedd wrth fynd ar daith i weld sut le oedd yma 480 miliwn o flynyddoedd yn ôl a'ch helpu i ddeall sut mae'r dirwedd wedi esblygu drwy weithgareddau daearegol. Mae'r dirwedd wedi effeithio'n fawr ar hanes ac archaeoleg yr ardal, ac ynghyd â'r fflora a'r ffawna, mae'n stori hynod o ddiddorol. Mae'r dydd yn cynnwys taith gerdded fer i faen hir ar gomin Mynydd Illtud.

**Tiwtoriaid: Alan Bowring, Alice Thorne,  
Gareth Ellis, Nicola Davies**

7 Mawrth

## 'KNOWING ME, KNOWING YOU'

10.30 yb – 3.30 yp – Parc Gwledig  
Craig-y-nos

Fe fydd ymwelwyr yn aml yn gwneud llawer iawn o ymchwil am Fannau Brycheiniog, ble i aros a beth i'w wneud cyn iddynt ddewis dod yma ar wyliau. Faint o ymchwil ydych chi wedi'i wneud ar eich ymwelwyr?

Byddwn yn eich tywys drwy'r arolwg ymwelwyr diweddaraf i Fannau Brycheiniog ac yn rhannu'r canfyddiadau gyda chi. Gyda'n gilydd, byddwn yn edrych sut mae'r canlyniadau yn gallu llywio a dylanwadu ar yr hyn a gynigiwn i ymwelwyr.

Ar ôl cinio, cewch fwynhau taith dywys o amgylch Parc Gwledig Craig-y-nos ac yna fe fydd sesiwn marchnata i'ch helpu i farchnata eich busnes yn effeithiol a marchnata Bannau Brycheiniog fel cyrchfan.

**Tiwtor: Lucy Von Weber & Carol Williams**

## POBL DDIEMWNT

Arddangosfa o bortreadau ffotograffig yn dathlu pen-blwydd y Parc Cenedlaethol yn 60 oed gyda rhai o'r bobl a'r busnesau sydd wedi gwneud gwahaniaeth. Comisiynwyd yr arddangosfa gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ffotograffau gan Billie Charity.

Os nad ydych chi wedi gweld y casgliad helaeth, fe fydd cyfle i chi wneud hynny rhwng 2 – 19 Tachwedd yn Theatr Brycheiniog.

19 Chwefror – 4 Mawrth yn Oriel Cric  
Gallery, Crughywel



## LLYSGENHADON – CADWCH Y DYDDIAD!

I'r rhai sydd eisoes yn Llysgenhadon Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, cynhelir y digwyddiad arbennig i Llysgenhadon ar

**Ddydd Iau 22 Mawrth 6 yb – 9 yb**

**yn Neuadd Buckland.** Anfonir y gwahoddiadau yn y Flwyddyn Newydd.

## Rhywbeth i lenwi hosan

### MYTHS & LEGENDS OF THE BRECON BEACONS

Gan Horatio Clare, darluniau gan Jane Matthews. Rhodd berffaith i'r teulu a ffrindiau.

Mae Bannau Brycheiniog yn llawn straeon rhyfeddol. Daw'r gorffennol yn fyw yng nghoedwigoedd a dyffrynnoedd y rhanbarth hwn. Ceir atseiniau

brwydrau milain, ysbrydion a gwyrthiau yn ei gestyll hynafol, llynnoedd diwaelod ac adeiladau rhyfedd. Dywedir bod y Brenin Arthur a Marchogion y Ford Gron yn cysgu ers canrifoedd mewn ogof yn y brynau hyn. Heb fod ymhell oddi yno, creodd soprano enwocaf ei hoes fyd hudolus. Yn y casgliad yma o straeon, mae'r seren opera a'r Brenin chwedlonol yn ymuno â chast o ysbrydion, elyll y dŵr, arglwyddi rhyfel, milwyr, menywod gwyllt, dynion busnes gwaradwyddus a phobl ifanc Cymru heddiw a'u lleisiau'n ailadrodd straeon y tir hwn. Mae Horatio Clare wedi aildehongli ac ail-ysgrifennu chwedlau lleol ar gyfer yr 21ain ganrif – gellir mynd am dro i'r manau hyn er mwyn rhoi bywyd i'r cymeriadau amrywiol, a gwranddo arnynt yn ailadrodd eu campau mewn straeon sy'n llawn comedi, trasiedi, myth a harddwch.

➔ Cysylltwch â Bev Powell yng Nghanolfan Ymwelwyr Libanus [Beverley.powell@beacons-npa.gov.uk](mailto:Beverley.powell@beacons-npa.gov.uk)

**01874 623483**

Pris: at £9.99.

Mae modd i fusesau brynu'r llyfr am £7.00.



## PROSIECT ANIMEIDDIO

### - I LAWYR MÔR

Fe fydd y prosiect newydd hwn ar gyfer 2018 yn dathlu thema Croeso Cymru "Y Môr" ac yn dangos sut y cyfrannodd Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu at newid yr ardal hon yn ystod y chwyldro diwydiannol. Newidiodd fywydau'r boblogaeth leol a oedd yn byw ar hyd ei glannau am byth gyda phobl yn canfod gwaith yn y diwydiannau haearn a glo a'r busnesau a oedd yn gyfrifol am gludo'r holl ddeunyddiau hyn i borthladdoedd De Cymru. Roedd y gamlas hefyd yn gyfrifol am gludo nwyddau o'r porthladdoedd hynny i gefn gwlad. Roedd cludo grawn i Aberhonddu yn arbennig o bwysig i'r ardal hon a oedd yn rhoi cymaint o bwyslais ar anifeiliaid yn pori yn hytrach nag amaethyddiaeth â'r.

Trwy gyfrwng ffilm wedi'i animeiddio, fe fyddwn yn portreadu sut byddai pobl wedi gweithio yn y diwydiannau, eu hamodau byw a gweithio ac amodau byw'r meistri haearn cyfoethog - mae'r cyfan yn cuddio yn y dirwedd. Fodd bynnag, mae yna rai cliwicu yn y dirwedd sy'n weladwy heddiw, ynghyd â llawer o wybodaeth ar baneli dehongli ar hyd y gamlas.

Fe fyddwn yn adrodd stori'r gorffennol ac yn dod â'r stori'n fyw wrth edrych ar y modd y defnyddir y gamlas heddiw. Fe fydd hyn yn galluogi ymwelwyr a chymunedau i ddeall pa mor hanfodol bwysig oedd y gamlas a sut byddai'r deunyddiau yn cael

eu cludo i lawr i'r môr ac allan i'r byd mawr.

Y farchnad darged yw teuluoedd gyda phlant 7-10 oed.

Mae'r ffocws ar gynyddu nifer yr ymwelwyr i Gymru a Bannau Brycheiniog, ac yn enwedig y farchnad deuluoedd.

Agwedd arall o'r prosiect cyfan yw tynnu sylw at y llwybrau cerdded rhwydd sydd eisoes yma, sef llwybrau y gall teuluoedd eu mwynhau gan ddysgu mwy am fannau diddorol a'u cysylltu gyda'r gorffennol.

Mae pum ffordd dram o fewn y Parc Cenedlaethol ac rydym am eu cynnwys yn yr animeiddiad. Mae gan bob un stori wahanol i'w hadrodd:

**Ffordd Dram y Gelli, Ffordd Dram Brinore, Ffordd Dram Baileys Clydach, Ffordd Dram Hills, Ffordd Dram Baileys Govilon.**

Fe fydd modd uwchlwytho'r animeiddiad i wefannau busnesau twristiaeth ym Marwrth 2018.

Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, Twristiaeth Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

➔ Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Carol Williams:

[carol.williams@beacons-npa.gov.uk](mailto:carol.williams@beacons-npa.gov.uk)  
**01874 620478**

## CINIO GALA TWRISTIAETH BANNAU BRYCHEINIOG 2017



Mae tocynnau i **Ginio Gala Chwedlonol Bannau Brycheiniog** bellach ar werth. Rwy'n gobeithio y byddwch yn gallu mynychu'r digwyddiad rhwydweithio hwn.

Cynhelir y cinio yn **Manor Hotel, Crughywel ar 30 Tachwedd - 7yh.**

Mae gennym ddau o siaradwyr gwadd arbennig i'ch diddanu:

1. **Owen Sheers** a fydd yn rhoi sgwrs fer ar White Ravens - ymateb cyfoes i chwedl Branwen Ferch Llŷr - a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Seren fel rhan o'u 'Straeon Newydd o'r Mabinogion'.

2. **Kevin Walker Mountain Activities** a fydd yn rhoi sgwrs ar rai o deithiau cerdded arbennig Bannau Brycheiniog.

Mae'r tocynnau yn £30 ac yn cynnwys pryd bwyd tri chwrs. Maent ar werth nawr felly gwnewch yn siŵr eich bod yn archebu eich sedd neu fwrdd heddiw drwy anfon e-bost i [info@breconbeaconstourism.co.uk](mailto:info@breconbeaconstourism.co.uk) neu ar-lein drwy [via www.eventbrite.com](http://www.eventbrite.com)

Diolch yn fawr  
Laura Thomas - Cyfarwyddwr Twristiaeth  
Bannau Brycheiniog

TWRISTIAETH BANNAU  
BRYCHEINIOG

**CYFARFODYDD  
2018**

**20 Chwefror**

10 yb - 1 yp

Clwb Pêl-droed Merthyr  
Tudful, Parc Penyardren,  
Park Terrace, CF47 8RF

**10 Ebrill** 10 yb - 1 yp

Theatr Brycheiniog,  
Canal Wharf,  
Aberhonddu, Powys,  
LD3 7EW

## CYSYLLTIADAU

**Richard Tyler**

**Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,  
Ffordd Cambrian, Aberhonddu,  
Powys, LD3 7HP

01874 620405

[richard.tyler@breconbeacons.org](mailto:richard.tyler@breconbeacons.org)

**Carol Williams**

**Swyddog Ardal Twf Twristiaeth**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,  
Ffordd Cambrian, Aberhonddu,  
Powys, LD3 7HP

01874 620478

[carol.williams@breconbeacons.org](mailto:carol.williams@breconbeacons.org)

**Alan Bowing**

**Swyddog Geoparc y Fforest Fawr**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,  
Cambrian Way, Brecon,  
Powys, LD3 7HP.

01874 620415

[alan.bowing@breconbeacons.org](mailto:alan.bowing@breconbeacons.org)

**Laura Thomas**

**Cyfarwyddwr Gweithredol, Twristiaeth Bannau Brycheiniog**

01874 202202

[laura@breconbeaconstourism.co.uk](mailto:laura@breconbeaconstourism.co.uk)